



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer Gwasanaethau
Cymdeithasol 2015/2016**

Cynnwys

**Adran 1: Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Tudalen 3**

Adran 2: Gwasanaethau i Oedolion

- **Gwybodaeth am y Gwasanaethau i Oedolion** **Tudalen 6**
- **Sut gwnaethon ni yn 2015/16** **Tudalen 7**
- **Ein cynlluniau ar gyfer 2016/17** **Tudalen 15**

Adran 3: Gwasanaethau i Blant

- **Gwybodaeth am y Gwasanaethau i Blant** **Tudalen 18**
- **Sut gwnaethon ni yn 2015/16** **Tudalen 19**
- **Ein cynlluniau ar gyfer 2016/17** **Tudalen 25**

Adran 4: Eich barn chi **Tudalen 26**

Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gio Isingrini

Yn rhinwedd fy swydd fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf, mae'n bleser cyflwyno fy adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad yma'n amlinellu cyflawniad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor y llynedd ac yn amlygu'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau rydyn ni wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ym mhob cwr o'r Fwrdeistref Sirol, er mwyn diogelu a helpu plant, pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a chynhalwyr sy'n agored i niwed. Ein nod yw helpu pobl i fod yn ddiogel ac yn annibynnol a'u diogelu rhag tlodi. Rydyn ni'n gwybod mai dyma'r ffordd orau o ofalu am les hirdymor pobl.

Mae Gofal Cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol:


Mae rhagor o bobl yn byw am gyfnod hirach. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu byw bywydau gweithgar ac annibynnol, mae nifer cynyddol ohonyn nhw angen gofal a chymorth er mwyn ymdopi ag effeithiau salwch hirdymor, anabledd neu berthynas yn chwalu. Dyw'r gwasanaethau traddodiadol y gwnaethon ni eu darparu yn y gorffennol ddim yn ddigon hyblyg i lawer o bobl erbyn hyn. Dydyn nhw ddim yn galluogi pobl i gymryd rheolaeth ar eu bywydau na bod yn annibynnol, sef yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn dibynnu llai ar bobl a byw bywydau mwy llawn.

Ar hyn o bryd, rydyn ni, fel Cyngorau eraill yng Nghymru, yn parhau i wynebu pwysau ariannol a gofynion i leihau'r swm rydyn ni'n ei wario bob blwyddyn.

Rydyn ni wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ymatebol, o ansawdd da. Serch hynny, er mwyn ymateb i'r heriau yma, mae rhaid i ni ganfod ffyrdd newydd o wneud pethau. Mae rhaid i ni wneud pethau gwahanol a thrawsnewid ein dull gweithredu ym mhob gwasanaeth, gan sicrhau bod ein gweithgarwch ni'n atgyfnerthu'r cryfderau a'r rhwydweithiau sydd ar waith yn barod, yn hytrach na'u disodli nhw.

Allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pennau ein hunain. Mae'r partneriaethau rydyn ni wedi'u meithrin gyda ein cymunedau lleol ac eraill, fel y Bwrdd Iechyd Prifysgol, yr Heddlu, Awdurdodau Lleol eraill a'r sectorau gwirfoddol a phreifat yn rhan hanfodol o'r broses o sicrhau bod ein gwasanaethau'n trawsnewid y ffocws o ran diogelu effeithiol, atal, hunanreoli ac adsefydlu.

Mae'r flwyddyn yma'n arwyddocaol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) i rym ym mis Ebrill 2016.



Mae gofal a chymorth yn newid yng Nghymru **Care and support in Wales is changing**
O fis Ebrill 2016, bydd gennych fwy o lais yn eich gwasanaethau cymdeithasol. From April 2016, you will have more say in your social services.
Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth. Click [here](#) for more information.
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r gyfraith yma'n ategu'r ffordd rydyn ni wedi newid y broses o asesu anghenion pobl a'n dull o ddarparu gwasanaethau. Gall pobl gael mwy o ddylanwad ar y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu cael, a byddwn ni'n canolbwyntio'n fwy ar helpu pobl i wella eu lles.

Mae lles yn golygu bod pobl: <ul style="list-style-type: none"><input type="radio"/> yn iach<input type="radio"/> yn fodlon ar eu bywydau<input type="radio"/> yn ddiogel ac wedi'u diogelu<input type="radio"/> yn gallu dysgu pethau newydd	
I oedolion, mae hefyd yn golygu eu bod: <ul style="list-style-type: none"><input type="radio"/> yn gallu rheoli eu bywydau<input type="radio"/> yn gallu gweithio	I blant, mae hefyd yn golygu eu bod: <ul style="list-style-type: none"><input type="radio"/> yn gallu cael magwraeth hapus<input type="radio"/> yn cael gofal da

Mae'r Gyfraith newydd yn hyrwyddo amrywiaeth o gymorth sydd ar gael yn y gymuned er mwyn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio cymorth ffurfiol a chymorth sydd wedi'i gynllunio. Er enghraifft:

- Gwasanaethau yn y gymuned er mwyn rhoi'r cymorth iawn ar yr adeg iawn
- Sicrhau bod gwybodaeth a chynghor ar gael yn fwy rhwydd ac mewn mwy o leoedd
- Defnyddio dulliau ataliol yn fwy aml er mwyn osgoi anghenion pobl rhag gwaethygu

- Aseidiadau mwy syml a chymesur
- Hawliau cyfartal i gynhalwyr o ran asesu am gymorth

Mae'r gyfraith hefyd yn annog rhagor o gydweithio rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd lechyd ac, yn bwysicach fyth, mae'n rhoi mwy o bwerau i ni allu atal pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Yn ystod 2015/16, gweithion ni gyda'n partneriaid ledled Rhanbarth Cwm Taf er mwyn paratoi ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn benodol, rydyn ni wedi newid ein cynlluniau o ran comisiynu cynlluniau a modelau darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, plant a phobl ifanc a chynhalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf sydd wedi'i hamlinellu uchod.

Oherwydd cwmpas y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, roedd angen gwneud llawer o waith paratoi. Serch hynny, mae cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein helpu i ehangu a datblygu dulliau gweithredu newydd ar gyfer ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ein gwasanaeth Ail-alluogi, ein gwasanaeth Ail-alluogi ar gyfer pobl â dementia, gwasanaeth rhyddhau cleifion strôc yn gynnar y Byrddau lechyd a chydlynwyr cymunedol y trydydd sector.

Yn ystod 2015/16, llunion ni hefyd Bolisi Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor, ac ar ein rhan, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiogelu lle plant, pobl ifanc ac oedolion, waeth beth yw eu rôl.

Er mwyn helpu gyda'r ddyletswydd yma, rydyn ni wedi atgyfnerthu'r trefniadau o ran diogelu ym mhob un o wasanaethau Cyngor Rhondda Cynon Taf. Gwnaethon ni hyn drwy benodi Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Morgan, i fod yn eiriolwr Diogelu Corfforaethol. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi ni i atgyfnerthu trefniadau o ran llywodraethu a rheoli perfformiad, gan gynnwys adroddiadau blynyddol. Rydyn ni hefyd wedi datblygu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff y Cyngor, Aelodau etholedig a chontractwyr sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

Ar y cyfan, rwy'n falch o ddweud fod cyflawniad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf yn dal i wella. Serch hynny, mae meysydd i'w gwella o hyd ac, o'i gymharu â chynghorau eraill, rydyn ni'n dal i gynorthwyo mwy o oedolion mewn lleoliadau gofal yn hytrach nag yn eu cartrefi. Yn ogystal â hynny, mae nifer gymharol uchel o blant yn derbyn gofal gan y cyngor yn hytrach na byw â'u teuluoedd, er bod y

sefyllfa yma wedi gwella rhywfaint dros y flwyddyn ddiwethaf. Er bod nifer o ffactorau yn cyfrannu at y sefyllfa yma, mae atgyfnerthu gwasanaethau cymorth yn y gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r rhain yn brif flaenoriaeth ar gyfer 2016/17.

Yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad, cewch ragor o fanylion am gyflawniad a blaenoriaethau'r gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae fy mlaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys

Diogelu pobl agored i niwed yn ein cymunedau
Lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy wasanaethau cymorth i'r teulu sy'n ddiogel ac yn addas
Lleihau nifer yr oedolion sydd angen treulio cyfnod hir mewn cartref gofal, a hynny drwy wasanaethau cymunedol diogel a phriodol
Parhau â'r agenda o ran moderneiddio/trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

I gloi, hoffwn achub ar y cyfle yma i ddiolch i fy holl staff a'm cydweithwyr o asiantaethau partner, ac i'r cynhalwyr anffurfiol sy'n cydweithio i sicrhau ein bod ni'n parhau i helpu'r bobl yn ein cymunedau sydd angen ein cymorth er mwyn parhau i fyw eu bywydau.

Giovanni Isingrini

Adran 2: Gwasanaethau i oedolion

Gwybodaeth am y Gwasanaethau i Oedolion

Mae pobl angen gofal a chymorth am lawer o resymau gwahanol. Gall hyn fod oherwydd eu hoedran, anabledd, iechyd neu sefyllfa bersonol.

Rydyn ni'n gyfrifol am sicrhau bod pobl hŷn, oedolion ag anableddau corfforol, anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu a phobl sy'n agored i niwed yn cael yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth angenrheidiol.

Diben hyn yw sicrhau bod unigolion yn aros yn annibynnol, gwella ansawdd eu bywydau a'u helpu i fwynhau bywydau sy'n fwy llawn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, mae hyn yn golygu canfod ffyrdd newydd o gynnal eu hunain a gwella ansawdd eu bywydau. Byddwn ni'n eu helpu i ganfod y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw er mwyn gwneud hyn.

Efallai y bydd angen i ni ddarparu rhagor o gymorth i nifer fach o bobl.

Os byddwch chi angen cymorth gofal cymdeithasol gennym ni, byddwn ni'n:

- darparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau sy'n eich helpu i aros yn annibynnol
- canolbwyntio ar yr hyn y gallwch ei wneud dros eich hun, a gweithio i'ch helpu i gynnal eich gallu a'i wella
- gweithio gyda chi i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddiwallu eich anghenion a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi

Ein nod yw helpu pobl i fyw yn eu cartrefi neu'u cymunedau eu hunain cyn hired â phosib. Fyddwn ni ddim yn ystyried gofal preswyl os oes opsiynau eraill ar gael.

Pe hoffech ragor o wybodaeth am ein gwasanaethau i oedolion, ewch i'n gwefan:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/AdultsandOlderPeople/AdultsandOlderPeople.aspx>

Mae gan bawb hawl i fod yn ddiogel, ni waeth pwy ydyn nhw na beth yw eu hamgylchiadau. Rydyn ni o'r farn fod pawb yn gyfrifol am ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, fodd bynnag, mae gan y gwasanaethau i oedolion gyfrifoldebau penodol o ran diogelu oedolion.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu oedolion, ewch i'n gwefan
<http://www.cwmtafsafeguarding.org/adults/>

Os bydd angen i chi roi gwybod am bryderon, ffoniwch: 01443 425003

Sut gwnaethon ni yn 2015/16

Y llynedd, pennon ni'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer gwasanaethau i oedolion:

1. Diogelu oedolion sydd mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, sicrhau eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a'u diogelu rhag niwed y mae modd ei osgoi.
2. Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i oedolion a phobl hŷn sy'n derbyn gofal, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Caiff hyn ei wneud drwy ddulliau atal a thrwy integreiddio'r gwasanaethau iechyd.

1. Diogelu oedolion

Mae pawb yn rhan o'r gwaith o ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas, p'un a ydyn nhw'n ifanc, yn hen, yn anabl neu â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau. Mae'n bwysig bod ffordd i'r gymuned gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gallu helpu'r bobl yma. Bellach, mae'r wybodaeth yma ar gael ar wefan Diogelu Cwm Taf, a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2015.

Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o faterion diogelu sy'n effeithio ar blant ac oedolion yng Nghwm Taf. Yn bwysicach fyth, mae hefyd yn nodi sut i gadw llygad am y rhybuddion a cheisio cymorth pellach.

Mae adrannau unigol ar gyfer oedolion, plant, rhieni/cynhalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae cynllun y wefan yn hollgynhwysol ac yn llawn argymhellion, gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer pobl sy'n bryderus am eu hunain neu rywun arall.

Bydd y wefan hefyd yn adnodd a fydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i gael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau a gaiff eu cymeradwyo gan y Byrddau Diogelu a chael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu.

Ar y cyd â'n partneriaid, rydyn ni wedi sefydlu Hwb Diogelu Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Mae wedi'i leoli yng Ngorsaf yr Heddlu, Pontypridd, ac mae'n galluogi gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, gweithwyr iechyd, y gwasanaeth prawf a'r heddlu i gydweithio'n fwy agos, rhannu gwybodaeth yn fwy cyflym a chadw pobl yn ddiogel. Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth wedi bod ar waith yn llawn ers mis Mai 2015 ac mae wedi ennill dwy wobwr gan Heddlu De Cymru am arloesi a gweithio mewn partneriaeth. Yn ystod

2015, adolygon ni ein gweithdrefnau a dechrau cyfeirio pobl ag anableddau dysgu ac anableddau dysgu i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth, yn ôl y cynllun.

Sut mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn gweithio er budd oedolion?

Astudiaeth achos

Cafodd yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth wybod fod menyw 30 oed ag anabledd dysgu difrifol ac sy'n byw gyda'i modryb, wedi cyrraedd ei chartref gofal seibiant gyda chleisiau ar ei breichiau, ei brest a'i llygad. Dywedodd mai ei modryb oedd ar fai.

Casglon ni wybodaeth gan ei gweithiwr cymdeithasol a'i chartref gofal seibiant ar unwaith. Dangosodd yr wybodaeth yma ei bod hi wedi cael cleisiau heb eglurhâd amdany'n nhw o'r blaen, a bod pryderon ynglŷn â'r gofal roedd hi'n ei gael gan ei modryb. Serch hynny, mae'r sefyllfa yn gymhleth oherwydd ymddygiad heriol y fenyw.

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Swyddog Diogelu a'r Heddlu, bu heddlu arbenigol yn siarad â'r ferch a chafodd ei modryb ei harestio. Cymeron ni gamau yn syth er mwyn trefnu llety a gofal gan y Cyngor i'r fenyw wrth i'r ymchwiliad barhau.

Rhoddodd yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth gyfle i asiantaethau nodi trosedd bosibl yn gyflym, a chydweithio'n agos ac yn gyflym er mwyn diogelu'r fenyw.

Rydyn ni hefyd wedi ystyried yr adolygiad cenedlaethol a gafodd ei gynnal er mwyn ymateb i Operation Jasmine, sef 'Chwilio am Atebolrwydd'

(<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150714ojreporten.pdf> -

Saesneg yn unig). Roedd hwn yn edrych ar y ffordd y cafodd pobl hŷn mewn rhai cartrefi gofal eu hesgeuluso. O ganlyniad i hyn, rhoddodd y Bwrdd Diogelu Oedolion weithdy amlasiantaeth ar waith. Roedd yn cynnwys pobl hŷn a'u chynhalwyr, a'r nod oedd sicrhau bod ein staff yn gallu mynd i'r afael â'r gwersi a gafodd eu dysgu o'r adolygiad o'u harfer diogelu.

Yn ystod 2015/16, atgyfeirion ni 156 o achosion sy'n ymwneud â diogelu oedolion. Ar ddechrau'r flwyddyn, dywedon ni y byddai o leiaf 99.5% o'r achosion o atgyfeirio oedolion yn gweithredu cynllun er mwyn lleihau'r perygl o gam-drin pellach. Chyrhaeddon ni ddim ein targed, ond llwyddon ni i roi cynllun ar waith er mwyn diogelu a chynorthwyo oedolion sydd mewn perygl yn effeithiol ar gyfer 96% o'n hachosion.

2. Rhagor o ddewis a rheolaeth

Aeth y gwaith paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhagddo'n dda, ac rydyn ni wedi:

- Cynllunio i wella'r ffordd rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth fel ein bod ni'n gallu ymateb yn well pan fydd pobl yn cysylltu â ni.
- Llunio strategaeth a model gweithredu ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod y ffordd rydyn ni'n rheoli ein gwasanaeth yn bodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. (Rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni wedi llunio fersiwn derfynol o'r model yma erbyn diwedd mis Medi 2016, yn dilyn cyfnod o ymgynghori).
- Adolygu ac addasu ein prosesau o ran asesu, cynllunio gofal a chymorth a phrosesau adolygu.
- Mabwysiadu'r meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth.
- Diweddarau ein Polisi Taliadau Uniongyrchol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i dalu am amrywiaeth o wasanaethau yn y dyfodol.
- Adolygu ac addasu ein gweithdrefnau er mwyn ymateb i'r gofynion newydd o ran asesu ariannol a chodi tâl am wasanaethau.
- Diwygio ein holl bolisiâu mewnol a'r canllawiau i staff er mwyn sicrhau bod ein staff yn cael eu cynorthwyo i ymarfer yn unol â'r trefniadau newydd.
- Rhoi'r cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol ar waith er mwyn helpu staff a deall y ffordd y mae'r Gyfraith newydd yn effeithio ar eu gwaith.

Mae'r gwasanaethau ail-alluogi a gofal canolraddol yn parhau i wneud yn dda o ran helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae buddsoddiadau drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol yn golygu ein bod wedi ehangu'r gwasanaeth er mwyn gallu ymateb i ragor o bobl.

Astudiaeth Achos - Y Gwasanaeth Ail-alluogi

Llewygodd Mrs C, sy'n 82 oed, yn ei chartref. Cafodd ei chludo i'r ysbyty am ei bod hi'n goddef poenau yn ei habdomen, cyfog a dysentri.

Cafodd Mrs C ei diagnosio â haint pan oedd hi yn yr ysbyty, fodd bynnag, roedd ei salwch wedi ei gwneud hi'n eiddil ac yn wan iawn. Yn ogystal â hynny, doedd hi ddim yn gallu cerdded heb gymorth ac roedd hi ychydig yn ddryslud.

Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty, cafodd Mrs C driniaeth arbenigol ar gyfer ei chyflwr meddygol a

gwnaeth ei symptomau cychwynnol wella. Serch hynny, roedd hi'n dal yn wan iawn ac er ei bod hi'n barod i fynd gartref, roedd hi'n dibynnu ar eraill i ddiwallu ei hanghenion gofal sylfaenol.

Roedd y cynllun i helpu Mrs C ddychwelyd gartref yn cynnwys asesiad a chymorth gan y gwasanaethau i oedolion.

Drwy drafod y mater â Mrs C a'i theulu, nodon ni y byddai hi angen cymorth gan ei theulu. Yn ogystal â hynny, byddai angen i weithiwr gofal canolradd alw heibio ddwywaith y dydd ar y dechrau er mwyn sicrhau ei bod hi'n gallu diwallu ei hanghenion o ran gofal a dechrau bod yn fwy annibynnol yn ei chartref.

Serch hynny, roedd Mrs C yn dal yn eiddil ac mewn iechyd cyffredinol gwael pan adawodd hi'r ysbyty. O ganlyniad i hynny, ymatebodd y gwasanaeth gofal canolraddol i'w hanghenion gofal personol. Dechreuodd y gweithiwr gofal ymweld â hi bedair gwaith y dydd, ond weithion ni ddim ar ei gwneud hi'n fwy annibynnol.

Arhosodd y sefyllfa yma'r un fath am rai wythnosau a pharhaon ni i ddarparu cymorth wrth i staff y Bwrdd Iechyd Prifysgol weithio i drin ei phroblemau iechyd dros amser wrth i'w hiechyd wella.

Wrth i'w hiechyd wella, dechreuodd y staff weithio gyda Mrs C er mwyn ei helpu i symud yn fwy annibynnol a rheoli ei gofal personol. Yn raddol, cafodd nifer yr ymweliadau eu gostwng i ddwywaith y dydd.

Yn y pen draw, roedd y staff yn teimlo bod Mrs C yn dod yn fwy cyfforddus a galluog a dechreuon nhw ymweld â hi bob yn ail dydd.

Ar ddiwedd y rhaglen, roedd Mrs C yn gallu rheoli ei hanghenion gofal ei hun a doedd hi ddim angen cymorth gan y gwasanaeth.

Mae cyfanswm y bobl sy'n cael cymorth gofal cymdeithasol i oedolion yn y gymuned ac mewn lleoliad cartref gofal yn parhau i ostwng wrth i ni ganolbwyntio ar wneud pobl yn fwy annibynnol a lleihau nifer y bobl sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau am gyfnod hir. Serch hynny, rydyn ni'n dal i helpu nifer uchel o bobl mewn cartrefi gofal o'n cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd Prifysgol er mwyn symleiddio ein dull o helpu pobl sydd wedi gadael yr ysbyty. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd wedi newid o 9.44 fesul 1,000 o'r boblogaeth (75 oed neu'n hŷn) yn 2014/15 i 6.15 yn 2015/16.

Ein nod yw parhau i fuddsoddi llai mewn modelau gwasanaeth traddodiadol a buddsoddi mwy mewn gwasanaethau sy'n annog pobl i fod yn annibynnol ac sy'n helpu pobl a chymunedau i ddatrys eu problemau eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol.

I gefnogi'r nod yma, rydyn ni'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn hytrach na gwasanaeth wedi'i gomisiynu. Serch hynny, dyw pawb ddim yn awyddus i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dderbyn gwasanaethau ac mae nifer yr oedolion sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydyn ni'n disgwyl gweld cynnydd eto yn y dyfodol gan fod y Ddeddf newydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am amrywiaeth llawer mwy eang o wasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 341 o oedolion yn cael taliadau uniongyrchol.

Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda chymunedau lleol a'r trydydd sector i wella mynediad at amrywiaeth o rwydweithiau cymunedol a gwasanaethau lles sy'n helpu unigolion a chymunedau i helpu eu hunain.

Er enghraifft, drwy gydweithio â Chymdeithas Alzheimer's, rydyn ni sefydlu'r Maerdy fel y pentref cyfeillgar i ddementia cyntaf yng Nghymru.

Mae cymuned gyfeillgar i ddementia yn ddinas, tref neu bentref lle caiff pobl â dementia eu deall, eu parchu a'u cynorthwyo. Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus bod modd iddyn nhw gyfrannu at fywyd yn y gymuned.

Mae llawer o Gynghorwyr a staff yn gefnogol o'r prosiect ac maen nhw'n ystyried rhoi'r prosiect ar waith mewn ardaloedd eraill yn Rhondda Cynon Taf er mwyn creu amgylchedd mwy cefnogol ar gyfer y 3,000 o bobl yn y Fwrdeistref Sirol sy'n byw â cholli cof a dementia.

Y Maerdy - Pentref Cyfeillgar i Ddementia

Drwy Gronfa Gallu'r Gymuned, ac mewn partneriaeth ag eraill, lanion ni wasanaethau ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia yn ardal y Maerdy. Mae rhai o'r gwasanaethau yma yn cynnwys:

- Grŵp canu o'r enw 'Singing for the Brain®', sydd wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer pobl â dementia.
- Grŵp caffi er mwyn ymgorffori gweithgareddau er mwyn helpu pobl sydd â dementia i gynnal eu lles, bod yn annibynnol a pharhau i ymgysylltu â'u cymuned leol.
- Rhaglenni penodol ar gyfer cynhalwyr pobl sydd â dementia.
- Cyfeillion Dementia, rhaglen gan Gymdeithas Alzheimer's, sydd â'r nod o newid barn pobl am Ddementia drwy godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr a nodi'r ffyrdd bach y gall pobl a'r gymuned fod yn gyfeillgar i Ddementia.

Rydyn ni'n cynnig y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn ystod y sesiynau a gaiff eu cynnal yn Nhŷ Teifi bod dydd Mawrth rhwng 10am a 2pm.

Mae'n bosibl i ni wneud newidiadau bach a fydd yn gwneud bywydau beunyddiol pobl sy'n byw â dementia yn llawer gwell. Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn weithgar a bod yn rhan o'u cymunedau am gyfnod hirach.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu model gwasanaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth gofal yn y cartref a fydd yn adlewyrchu llwyddiant y dull gweithredu ail-alluogi. Bydd e hefyd yn parhau i helpu pobl fod mor gyfrifol ac annibynnol â phosibl wrth iddyn nhw dderbyn gofal.

Caiff y rhan fwyaf o'n gwasanaeth gofal yn y cartref ei gomisiynu gan sefydliadau yn y sector annibynnol ac rydyn ni wrthi'n ailgomisiynu'r model gwasanaeth newydd ledled Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rydyn ni'n bwriadu rhoi'r trefniadau newydd ar waith erbyn hydref 2016. Bydd ailgomisiynu'r contractau yn gyfle i ni wella mynediad i'r gwasanaeth ymhellach a sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth hyblyg ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddwn ni'n rhoi rhagor o bwyslais ar ddull gweithredu ail-alluogi er mwyn helpu rhagor o bobl i fyw gartref yn y modd mwyaf annibynnol â phosibl.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'r amrywiaeth a'r cyflenwad o lety â chymorth sydd ar gael. Bydd hyn yn golygu y bydd rhagor o ddewisiadau ar gael i helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na mewn gofal preswyl hirdymor.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Hafod i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Nhonysguboriau.

Tŷ Heulog fydd y llety cyntaf o'i fath yn Rhondda Cynon Taf. Bydd yn darparu 40 o fflatiau sydd â chegin, ystafell ymolchi, ystafell wely ac ardal fyw. Bydd pob fflat ar gael i'w rhentu a bydd pob un o'r trigolion yn llofnodi cytundeb tenantiaeth. Rydyn ni'n bwriadu agor y cyfleuster yn ystod haf 2016.

Cyfleuster Gofal Ychwanegol Tŷ Heulog

Bydd y cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Nhonysguboriau yn cynnwys 40 fflat hunangynhwysol (16 o fflatiau un ystafell wely a 24 o fflatiau dwy ystafell wely).

Bydd pob fflat yn hygyrch i bobl anabl neu'r rheiny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a byddan nhw'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol ar eu pen eu hunain, sef rhywbeth sy'n bwysig iawn i bobl hŷn.

Caiff technoleg teleofal ei defnyddio er mwyn galluogi pobl i fyw'n ddiogel yn eu fflatiau a helpu staff i fonitro'r rheiny sydd â dementia neu broblemau iechyd, lle y bo hynny'n briodol.

Gan fod fflatiau dwy ystafell wely ar gael, bydd modd i'r cynllun helpu cyplau y gallan nhw fod wedi cael eu gwahanu oherwydd eu hanghenion gofal. Mewn achosion fel hyn, bydd y garfan staff gofal ar y safle yn gweithio i atgyfnerthu'r cymorth anffurfiol y mae'r cwpl yn ei roi i'w gilydd.

Bydd y cyfleuster yn cynnwys meysydd gwasanaeth ar gyfer golchi dillad, ymolchi â chymorth, triniaeth a chyfleoedd gofal dydd. Bydd y rhain yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn y fflatiau ac efallai y bydd modd i bobl eraill o'r gymuned leol eu defnyddio hefyd. Bydd cyfleusterau eraill ar gyfer gweithgareddau hamdden, trin gwallt, ymwelwyr iechyd, technoleg gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio hefyd ar gael ar y safle yn ôl yr angen.

Yn ogystal â hynny, bydd y cyfleuster yn cynnwys bwyty ar y safle a chyfleusterau cymunedol eraill fel bod modd i bobl gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned os ydyn nhw'n bwriadu gwneud hynny. Bydd y manau mwy cyhoeddus yma wedi'u lleoli yn bell o fflatiau'r trigolion, felly bydd y llety'n aros yn ddiogel. Mae'r fflatiau wedi'u cynllunio'n dda, wedi'u hinswleiddio ac wedi'u hadeiladu mewn ffordd gynaliadwy iawn a fydd yn sicrhau gradd 'Da Iawn' o dan Fodel Cynaliadwyedd Methodoleg Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM).

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru adolygiad o gartrefi preswyl a nyrsio. Yr enw ar yr adolygiad yw 'Lle i'w Alw'n Gartref?' Mae pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd prifysgol wedi paratoi cynllun gweithredu i wella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid ar hyd a lled ardal Cwm Taf i weithredu ar ofynion y Comisiynydd Hŷn mewn perthynas â chartrefi gofal. Yn gefn i hyn, rydyn ni wedi datblygu pecyn cymorth sicrhau ansawdd sy'n cynnwys trefnau ymgynghori'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Rydyn ni hefyd wedi adolygu ein Rheoliad 27 i gryfhau llais trigolion a'u cynrychiolwyr yn ein cartrefi, yn ogystal â llais y rheiny sy'n gweithio yn y cartrefi gofal i lunio barn ar safon ac ansawdd y gofal.

Ein bwriad oedd cwblhau Strategaeth Comisiynu Anableddau Dysgu yn 2015/16, fodd bynnag, fe fyddwn ni'n ei chyhoeddi yn hwyrach na'r disgwyl. Mae gwaith datblygu'r strategaeth yn mynd rhagddo'n dda ac rydyn ni'n disgwyl iddi gael ei rhoi ar waith yn ystod yr haf. Mae cryn oedi wedi bod yn sgil y penderfyniad i ehangu cwmpas y prosiect. Byddwn ni'n cynnwys Gwasanaethau Anableddau Dysgu i Blant, a fydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ac yn canolbwyntio'n fwy ar annibyniaeth bersonol, yn benodol wrth bontio rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant.

Serch hynny, rydyn ni wedi parhau i gynnig cymorth unigol i gefnogi annibyniaeth bersonol..

**Astudiaeth Achos – Y Garfan Bontio – cefnogi pobl sydd ag anableddau dysgu i gamu i'r byd gwaith
Cefndir**

Roedd M, sy'n oedolyn, yn byw yn RhCT. Er bod ganddo anabledd dysgu, doedd gwasanaethau ddim yn gwybod amdano. Pan oedd yn tyfu i fyny, roedd ei rieni yn yfwyr mawr. Pan fu farw rhieni M, parhaodd i fyw gartref. Serch hynny, roedd y tŷ mewn cyflwr ofnadwy o wael ac yn y pendraw, daeth M yn ddi-gartref. Roedd yn byw ar y stryd ac yn camddefnyddio alcohol. Ffoniodd aelod o'r gymdeithas y gwasanaethau cymdeithasol. Symudodd M i lety cymorth y tu allan i'r ardal roedd e wedi byw ynddi ar hyd ei oes. Cytunodd M i weld cynghorydd a daeth i'r arfer â'i fywyd newydd.

Pan gafodd ei atgyfeirio, roedd M a gweithwyr proffesiynol yn pryderu - beth fydd e'n ei wneud yn ystod ei amser rhydd? Roedd M yn pryderu ynghylch dychwelyd i'w hen ardal. Er bod ei holl

ffrindiau'n byw yno, roedd e'n gofidio y byddai'n byw ar y stryd ac yn yfed gormod eto pe bai'n dychwelyd i'r ardal.

Trefnodd y Garfan Bontio gyfarfod gyda M, a dywedodd wrth y garfan yr hyn mae e'n ei hoffi, yr hyn dydy e ddim yn hoffi, a'i sgiliau. Helpodd y garfan i feithrin hyder a hunan barch M, a lleddfu'i bryderon. Y nod oedd ei helpu i wneud gweithgareddau ystyrllon yn ystod y dydd, rhoi hyfforddiant ar deithio iddo a'i gefnogi i ddod o hyd i swydd.

Cafodd M gymorth i ystyried y cyfleoedd sydd ar gael iddo, i'w gadw draw o leoedd sy'n gwerthu alcohol. Dywedodd M y byddai'n dwlu ar weithio mewn ffatri yn yr ardal, er doedd dim gwahaniaeth ganddo beth y byddai'n ei wneud mewn gwirionedd.

Dywedodd perchnogion ffatri ffenestri y byddai'n fodlon i M wirfoddoli yn y ffatri. Roedd M yn bryderus, ond cytunodd i roi cynnig ar y gwaith. Cafodd M gymorth i fynd i'r cyfweiliad, a chytunwyd ar ddyddiad dechrau gwaith. Byddai adolygiad yn cael ei gynnal 4 wythnos ar ôl iddo ddechrau'r swydd. Roedd yr adborth yn y cyfarfod adolygu gyda M a'i gyflogwr yn gadarnhaol iawn. Parhaodd y garfan bontio i gefnogi M o ran yr hyfforddiant iechyd a diogelwch y byddai ei angen i ymgymryd â'i rôl. Llwyddodd i gwblhau'r hyfforddiant a chafodd dystysgrifau. Cododd ei hyder o ganlyniad i hynny. Dechreuodd y gweithiwr pontio gefnogi M lai a llai, gyda chydsyniad M.

Erbyn hyn, dydy M ddim yn derbyn cymorth pontio o gwbl, er ein bod ni'n ffonio M a'i gyflogwr bob wythnos i holi am ei gynnydd. Yn ei gyfarfod adolygu olaf, cafodd gynnig i wirfoddoli am ddiwrnod arall yn y ffatri, a manteisiodd M ar y cyfle hwnnw. Mae'r cymorth mae e wedi'i gael wedi gweddwed ei fywyd. Mae e'n aelod hyderus o'r gymuned, mae e wedi rhoi'r gorau i yfed, ac mae e'n berson hapus.

Dyma rai o'r adborth ynghylch ein cartrefi gofal preswyl:

- Rydyn ni'n hapus gyda'r gofal mae ein mam yn ei dderbyn, ac mae'r staff yn ardderchog.
- Hoffwn i ddweud fod fy mam yn derbyn gofal ardderchog. Mae staff y gegin yn ardderchog, yn ogystal â staff y swyddfa a'r gofalwyr - lle arbennig.
- Does dim cartref gwell, ac rwy wedi cwrdd â ffrindiau hyfryd. Diolch yn fawr iawn ichi.
- Hapus iawn yn byw yma. Mae'r staff, bwyd, gweithgareddau a'r amgylchedd yn anhygoel.
- Staff yn gymwynasgar ac yn hapus i gyfathrebu â chi, preswylwyr yn derbyn gofal da. Os oedd yn rhaid iddi ddewis cartref, byddai hi'n dewis yr un yma.

Yn olaf, rydyn ni wedi gweithio i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu hasesu mewn modd amserol a bod y cymorth rydyn ni'n ei roi yn briodol. Yn ystod y flwyddyn, fe ddiweddarwn ni ein harferion gwaith sy wedi cael effaith gadarnhaol ar ein cyflawniad.

Yn benodol, rydyn ni wedi cynyddu nifer yr adolygiadau cynlluniau gofal sy wedi'u cynnal o fewn amserlenni cytûn. Rydyn ni wedi llwyddo y tu hwnt i'n targed o sicrhau bod 80% o gynlluniau yn cael eu hadolygu erbyn mis Rhagfyr 2015. Llwyddon ni i adolygu 80.1% ohonyn nhw

erbyn y cyfnod hwnnw, sy'n uwch na'r flwyddyn flaenorol. Yn 2014/15, adolygon ni 73.2% o gynlluniau o fewn amserlenni cytûn. Dyma oedd un o'r cyfraddau gwaethaf yng Nghymru. Y cyfartaledd ledled Cymru oedd 80% yn ôl adroddiad o 2014/15.

Rydyn ni hefyd wedi cyflawni y tu hwnt i'n targed o gynyddu nifer y cynhalwyr rydyn ni'n cynnig asesiad iddyn nhw i 86.1%. Mae canran y cynhalwyr sy wedi cael asesiad o'u hanghenion ac sy wedi derbyn gwasanaeth yn dilyn hynny uwch o lawer na'n targed o 99.6%. Mae hyn hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 64.6% yn ôl adroddiad o 2014/15.

Beth oedd yn nod ar gyfer 2015/16?	Sut gwnaethon ni?
Ar ddiwedd y cyfnod derbyn cymorth, bod o leiaf 66% o becynnau gofal yn ddigonol - fydd y defnyddwyr gwasanaeth hynny ddim angen gwasanaethau parhaus	Rydyn ni wedi cyflawni y tu hwnt i'r disgwyl. Mae 77.6% o becynnau gofal wedi bod yn ddigonol - doedd y defnyddwyr gwasanaeth hynny ddim angen gwasanaethau parhaus
Mae 95% o bobl sy wedi derbyn cymorth gwasanaeth ailalluogi o'r farn ein bod ni wedi'u helpu i gynnal eu hannibyniaeth (cynnydd o'r 94.4% yn ystod 2014/15)	Rydyn ni wedi cyflawni y tu hwnt i'r disgwyl. Roedd 96.2% o'r bobl a gafodd gymorth o'r farn ein bod ni wedi'u helpu i gynnal eu hannibyniaeth o ganlyniad i dderbyn pecyn ailalluogi
Bod o leiaf 86% o gynhalwyr yn cael cynnig asesiad, cynydd o'r 76.3% yn ystod 2014/15)	Rydyn ni wedi cyflawni ychydig yn well na'r disgwyl. Roedd 86.1% o gynhalwyr wedi cael cynnig asesiad. Er gwaethaf y ffaith bod hyn yn sylweddol uwch nag eleni, mae ein cyflawniad yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru o 88.3%, yn ôl adroddiad o 2014/15
Cefnogi rhagor o bobl 65 oed neu'n hŷn yn y gymuned (83.8 person o bob mil)	Dydyn ni ddim wedi cyflawni yn y maes yma. Dim ond 81.4 person 65 oed neu'n hŷn o bob mil sy wedi cael eu cefnogi yn y gymuned. Mae hyn hefyd yn llai na chyfartaledd Cymru, sef 82.2 yn ôl adroddiad o 2014/15
Cefnogi llai o bobl 65 oed neu'n hŷn mewn cartrefi gofal, gan leihau'r nifer o 24.46 o bob mil yn ystod 2014/15 i 23 o bob mil	Er ein bod ni wedi lleihau nifer y bobl sy'n derbyn cymorth mewn cartref gofal, dydyn ni ddim wedi cyflawni yn ôl y disgwyl - cafodd 24.02 o bob mil eu cefnogi mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 18.85 o bob mil o'r boblogaeth, yn ôl adroddiad

Ein cynlluniau ar gyfer 2016 / 27

- Rheoli gwaith gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a mynd ati i gwblhau'r newidiadau arfaethedig ar gyfer model gweithredu'r gwasanaethau i oedolion gan gynnwys yr wybodaeth, cyngor a threfniadau cymorth.
- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i barhau â'r gwaith o weithredu datganiad comisiynu rhanbarthol pobl hŷn. Byddwn ni'n gwneud hyn i wthio datblygiad modelau gwasanaeth newydd ar gyfer gofal cartref, llety â chymorth a gwasanaethau oriau dydd. Byddwn ni hefyd yn parhau i bwysleisio gwasanaethau ailalluogi a gofal canolraddol a darparu cymorth ychwanegol i fentrau cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn datblygu hydwythedd rhwydweithiau cymorth yn y gymuned.

- Gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i gwblhau'r datganiad strategaeth, a chytuno arni, ar gyfer comisiynu gwasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu (anghenion cymhleth ac awtistiaeth) a'u teuluoedd. Byddwn ni hefyd yn gwthio datblygiad gwasanaeth newydd a dynamig sy'n diogelu pobl, gwella cymorth yn y gymuned, pwysleisio ymyraethau cynnar a gwaith atal sy'n galluogi pobl i fyw bywydau llawn yn eu cartrefi.
- Parhau i ymateb yn effeithiol i oedolion mewn risg a sicrhau y caiff gofynion diogelu oedolion diwygiedig o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) eu rhoi ar waith.

Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth er gwell?

Dyma'r mesurau allweddol y byddwn ni'n eu defnyddio i gefnogi ein blaenoriaethau a mesur cyflawniad ein gwasanaeth:

- % yr ymholiadau diogelu oedolion sy wedi'u cwblhau o fewn amserlenni statudol
- % yr oedolion sy wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, ac sy heb gysylltu eto â'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn
- % yr oedolion sy wedi cwblhau cyfnod ailalluogi ac sydd â phhecyn gofal a chymorth llai dwys 6 mis yn ddiweddarach
- Cyfran y bobl a gafodd eu hasesu gan wasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion sy'n derbyn cynllun gofal a chymorth
- Nifer llai o bobl sy'n derbyn gofal preswyl neu nyrsio;
- Nifer uwch o bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli'u trefniadau gofal eu hunain

Adran 3: Gwasanaethau i Blant

Gwybodaeth am y Gwasanaethau i Blant

Mae'r Gwasanaethau i Blant yn cynnig amrediad o wasanaethau sy'n diogelu a chynorthwyo plant, pobl ifainc a'u teuluoedd neu gynhalwyr. Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fod yn ddiogel, ni waeth pwy ydy ef neu beth yw ei amgylchiadau. **Rydyn ni o'r farn fod pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant a phobl ifainc, fodd bynnag, mae gyda ni gyfrifoldebau penodol o ran diogelu plant a phobl ifainc.**

Am ragor o wybodaeth am ddiogelu, ewch i'n gwefan:

<http://www.cwmtafsafeguarding.org/children/children-young-people/?lang=cy-GB>

Os bydd angen i chi roi gwybod am bryderon, ffoniwch: 01443 425003

Dylai teuluoedd yn RhCT fod yn ddiogel, yn fodlon, yn annibynnol ac yn iach. Mae rhai teuluoedd, fodd bynnag, yn ei chael hi'n anodd cyflawni hyn.

Rydyn ni'n gyfrifol am sicrhau bod plant, pobl ifainc a theuluoedd yn cael yr wybodaeth, cyngor a chymorth maen nhw eu hangen i fod yn ddiogel, cynnal eu hannibyniaeth a byw bywydau mwy llawn a hwyl.

I'r rhan helaeth o blant a phobl ifainc a'u teuluoedd neu gynhalwyr, bydd derbyn cymorth yn fuan, pan fo angen, yn sicrhau bod modd iddyn nhw gefnogi'u hunain a gwella ansawdd eu bywydau.

Mae'n bosibl y bydd raid inni, fodd bynnag, gynnig cymorth mwy dwys i nifer fach o deuluoedd a phlant.

Os byddwch chi angen cymorth gofal cymdeithasol gennym ni, byddwn ni'n:

- darparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau sy'n eich helpu i aros yn annibynnol
- canolbwyntio ar yr hyn y gallwch ei wneud drosoch chi'ch hun, a gweithio i'ch helpu i gynnal eich gallu a'ch perthnasau a'u gwella
- gweithio gyda chi i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddiwallu eich anghenion a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi
- Eich diogelu rhag niwed

Ein nod yw helpu plant i fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau. Byddwn ni dim ond yn rhoi plentyn mewn gofal os yw'r risgiau mae'r plentyn yn eu hwynebu yn annerbyniol.

Pe hoffech ragor o wybodaeth am ein gwasanaethau i blant, ewch i'n gwefan:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ChildrenandFamilies/ChildrenandFamilies.aspx>

Sut gwnaethon ni yn 2015/16

Y llynedd, pennon ni'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer gwasanaethau i oedolion:

1. Byddwn ni'n rhoi'r cymorth sydd ei angen ar blant a'u teuluoedd cyn gynted â phosibl i'w helpu nhw i gynnal ansawdd eu bywydau, atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r galw am ofal drud, arbenigol.
2. Byddwn ni'n gwella trefnau asesu, cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifainc hynny sy angen gofal hir dymor parhaol, yn ôl y gyfraith.

Er bod y galw am wasanaethau i blant yn lleihau mewn rhai ardaloedd, mae'r galw yn parhau'n uchel. Mae nifer y plant sy mewn gofal a nifer y plant ar gofrestru diogelu plant yn uchel o hyd. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i leihau, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Eleni, lleihaodd y nifer 3%, fodd bynnag, mae nifer y plant ar y gofrestr diogelu plant wedi cynyddu 5%.

Dyma oedd y galw am wasanaethau i blant rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016:

- Cafodd 2,891 o atgyfeiriadau eu derbyn mewn perthynas â phlant a phobl ifainc oedd angen cymorth a chefnogaeth, o'u cymharu â 3,102 yn ystod 2014/15
- Cafodd 823 o asesiadau craidd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn o'u cymharu â 954 yn ystod 2014/15
- Roedd 473 o blant ar y gofrestru diogelu plant ar 31/3/2016, o'u cymharu â 449 ar 31/3/2015
- Daeth 146 o blant yn dod yn detsun gofal yn ystod 2015/16 o'u cymharu â 228 yn ystod 2014/15

Yn ôl ein gwaith gwerthuso, mae ein cyflawniad yn gyffredinol yn gwella, fodd bynnag, bydd angen cynnal hyn os byddwn ni'n gwella deilliannau ar gyfer plant ymhellach.

Rydyn ni wedi bodloni 67% o'n mesurau allweddol, neu wedi cyflawni y tu hwnt iddyn nhw. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru (yn ôl adroddiad o 2014/15). Mae 72.5% yn well neu'n debyg i'r mesurau allweddol o'r llynedd.

1. Rhoi cymorth sydd ei angen ar blant a'u teuluoedd cyn gynted â phosibl

Rydyn ni wedi gweithio'n galed i weithredu model gwasanaeth newydd ar draws gwasanaethau i blant er mwyn:

- Rhoi'r gallu i blant, pobl ifainc a theuluoedd fanteisio ar gymorth addas cyn gynted â phosibl.
- Atal problemau rhag gwaethygu a lleihau'r galw am wasanaethau cymorth drud ac arbenigol.
- Sicrhau y bydd plant, pobl ifainc a'u teuluoedd yn cael cymorth i'w helpu nhw i gyrraedd eu llawn botensial. Bydd hyn felly'n gwella'u lles cyffredinol ac ansawdd eu bywydau.

Rydyn ni wedi gwranddo ar blant a'u teuluoedd, staff a phartneriaid allweddol. Rydyn ni hefyd wedi datblygu strwythur i gyflwyno model gweithredu ein hunain a rhoi gwybod i'r bobl berthnasol sut byddwn ni'n gweithio i gefnogi pobl mewn modd effeithiol.

Cafodd 68.2% o asesiadau cychwynnol eu cwblhau o fewn 7 niwrnod. Fe gyflawnon ni y tu hwnt i'n targed, ac roedd hyn yn well na chanran 2014/15.

Rydyn ni wedi bod yn paratoi at ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daeth i rym ym mis Ebrill eleni.

Mae'r ddeddf newydd yn arwyddocaol - fe fydd hi'n newid y berthynas rhyngon ni a'r plant, teuluoedd a chynhalwyr rydyn ni'n eu cefnogi.

Dyma ran o'r gwaith paratoi rydyn ni wedi'i wneud yn ystod 2015/16 ar gyfer y Ddeddf:

- Cynllunio i wella'r ffordd rydyn ni'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth fel ein bod ni'n gallu ymateb yn well pan fydd pobl yn cysylltu â ni
- Adolygu ac addasu ein prosesau o ran asesu, cynllunio gofal a chymorth, a phrosesau adolygu
- Mabwysiadu'r meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifainc sydd angen gofal a chymorth
- Diweddarau ein Polisi Taliadau Uniongyrchol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i dalu am amrywiaeth o wasanaethau yn y dyfodol
- Diwygio ein holl bolisiau mewnol a'r canllawiau i staff er mwyn sicrhau bod ein staff yn cael eu cynorthwyo i ymarfer yn unol â'r trefniadau newydd
- Rhoi'r cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol ar waith er mwyn helpu staff a deall y ffordd y mae'r Gyfraith newydd yn effeithio ar eu gwaith

Datblygon ni Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH), a gafodd ei lansio'n ffurfiol ar 21 Mai 2015. Yn ôl dangosyddion cynnar, mae modd inni ymateb yn fwy prydlon i bryderon o ganlyniad i MASH.

Sut mae MASH yn gweithio er budd plant?

Astudiaeth Achos

Daeth atgyfeiriad i law o'r ysbyty a oedd yn pryderu bod Plentyn A wedi cael ei anafu pan oedd yng ngofal ei rieni.

Unwaith i'r atgyfeiriad ddod i law, cafodd trafodaeth amlasiantaeth ei chynnal ym MASH i bennu sut byddwn ni'n diogelu'r plentyn, a'r camau i'w cymryd. Cafodd y broses diogelu plant ei rhoi ar waith yn syth. Anfonwyd cais i'r llys hefyd, a dangosodd ymchwiliad meddygol fod gan Blentyn B anafiadau sylweddol hefyd.

Cafodd trefniadau gofal diogel eu gwneud, hefyd, a chafodd tri phlentyn y teulu eu rhoi yng ngofal rhieni maeth.

Buddion MASH

- Penderfyniad i atgyfeirio wedi'i wneud o fewn 24 awr ar ôl cysylltu â MASH
- Casglodd MASH yr holl wybodaeth berthnasol am y teulu
- Cafodd y drafodaeth strategaeth ei chynnal o fewn yr amserlen goch gytûn o 2 awr
- Cafodd y garfan asesu gychwynnol wybod am yr atgyfeiriad ac roedd yn rhan o'r trefnau gwneud penderfyniad
- Cafodd cyfarfod strategaeth ei gynnal yn yr ysbyty yr un diwrnod. Roedd pob un o'r asiantaethau perthnasol yn bresennol
- Trefnodd MASH i holl blant y teulu gael archwiliad meddygol yn yr ysbyty

Deilliannau ar gyfer y plant

I gychwyn, cafodd y plant eu rhoi yng nghofal rhieni maeth gerllaw er mwyn helpu'r teulu i gynnal cysylltiad da.

Penderfynwyd yn y pendraw i bennu aelod o'r teulu yn warcheidwad tymor hir y plant.

Rydyn ni wedi sefydlu swyddi gweithwyr cymdeithasol ychwanegol yn ein gwasanaeth i gynyddu nifer y gweithwyr â chymwysterau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ni'n bodloni gofynion cenedlaethol ac yn gwella ein cyflawniad mewn meysydd gwasanaeth allweddol.

Roedd 83.5% o'r asesiadau cychwynnol a gafodd eu cwblhau yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol yn cwrdd â'r plentyn. Cyflawnon ni y tu hwnt i'n targed o 75%.

Rydyn ni'n cydnabod bod rhaid i ni barhau i newid canolbwynt ein gwasanaethau er mwyn cefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant gartref, lle bo'n ddiogel, ac er mwyn eu helpu nhw i gyrraedd eu llawn botensial a gwella'u lles ac ansawdd eu bywyd.

Rydyn ni wedi cyflawni hyn i ryw raddau drwy ymyriadau cynnar a chymorth gan Garfan o Amgylch y Teulu (TAF). Mae'u hasesiadau a'u cymorth wedi cynyddu, sy wedi helpu rhagor o deuluoedd i fodloni'u nodau megis manteisio ar gyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol gyda chymorth Rhaglen Hwyl yr Haf.

Mae Carfan Cymorth i Deuluoedd Integredig yn cynnig cymorth mwy dwys i deuluoedd sy mewn sefyllfaoedd uchel eu risg. Mae hi wedi ehangu'i gwasanaeth i roi cymorth i deuluoedd sydd â phryderon mewn perthynas â chamdrin domestig.

Sut gall Carfan Cymorth i Deuluoedd Integredig gefnogi teuluoedd?

Astudiaeth Achos

Cafodd M (menyw 29 oed) ei hatgyfeirio yn dilyn pryderon a drafodwyd mewn Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth ynglŷn â'i gŵr yn ei cham-drin yn ddomestig.

Mae C wedi'i gyhuddo o ymosod ar eu mab 2 oed. Cydnabu M i'w gweithiwr cymdeithasol fod hanes hir o drais domestig yn eu perthynas. Cafodd enw mab M ei roi ar y gofrestr diogelu plant o dan y categori 'niwed corfforol'.

Pan gafodd ei hatgyfeirio i Garfan Cymorth i Deuluoedd Integredig, rhoddodd M wybod ei bod hi a C wedi gwahanu a dywedodd nad oedd hi eisiau iddyn nhw ailddechrau'u perthynas. Yn ôl asesiad y gweithiwr cymdeithasol, roedd modd i M roi gofal sylfaenol da i'w mab. Serch hynny, roedd y gweithiwr cymdeithasol yn pryderu ynghylch gallu M i ymdopi â sefyllfaoedd oedd yn ei rhoi dan bwysau, o ganlyniad i'w phroblemau iechyd meddwl yn y gorffennol, sy'n cynnwys hunan niweidio. Roedd gweithwyr proffesiynol yn poeni, pan oedd hi o dan straen, y byddai hi'n ei chael hi'n anodd diogelu'i mab.

Gofynnwyd i Garfan Cymorth i Deuluoedd Integredig weithio gyda M mewn perthynas â'i hwyliau cyfnewidiol, pryder cynyddol a diffyg hunan barch.

Dyma oedd nodau M:

- Roedd hi eisiau gwerthfawrogi'i hun a chynyddu'i hyder.
- Roedd hi eisiau rheoli'n hwyliau a'i phyliau o banig yn well.
- Roedd M eisiau bod yn fwy pendant a theimlo'n llai hunanymwybodol yn gyhoeddus neu mewn grwpiau/cylchoedd. (er enghraifft, pan oedd hi'n mynd i gylchoedd babanod neu Gymorth i Ferched, roedd M yn teimlo bod eraill yn ei barnu neu o'r farn ei bod hi'n 'dwp'. Weithiau, roedd hyn yn ei rhwystro rhag mynd â'i mab i grwpiau y dylai ef fynd iddyn nhw).
- Roedd M eisiau dysgu ffyrdd newydd o ymdopi. Roedd hi â chywilydd oherwydd ei bod hi'n hunan niweidio a doedd hi ddim eisiau i hyn effeithio ar ei mab.

Roedd M wedi gweithio gyda Charfan Cymorth i Deuluoedd Integredig i'w helpu i wireddu'i nodau. Mae hi wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith, ac o ganlyniad i hyn:

Mae hi'n deall ei phroblemau presennol ac mae hi'n fwy ymwybodol o sut mae'i phroblemau'n datblygu a'r rhesymau drostyn nhw.

Mae hi'n tosturio mwy wrth ei sefyllfa hi, mae hi'n rheoli'i phryder yn well ac mae hi'n ei chael hi'n haws rheoli'i phyliau o banig. Mae ei hyder wedi codi ychydig ac mae hi wedi lleihau ei 'hymddygiad diogelu', e.e, osgoi.

Mae M wedi ymuno â chylch arall. Mae hi'n mynd â'i mab yn fwy rheolaidd i gylchoedd ac yn ôl

adroddiadau, mae hi'n cymryd mwy o ran yn y cylchoedd. Mae hi'n treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar ei mab ac mae hi'n pryderu'n llai.

Mae M wedi gwella'i hwyliau a'i golwg, ac mae ei mab hefyd yn ymddangos yn fwy sefydlog.

Mae anghenion pobl ifainc 16 oed a hŷn yn wahanol i anghenion plant ifainc. Rydyn ni wedi sefydlu gwasanaeth i fodloni anghenion penodol y grŵp yma. Mae fframwaith gweithredu ar gyfer y gwasanaeth newydd i bobl ifainc 16 oed a hŷn wedi'i gytuno arno. Ein cynllun yn y tymor canolig yw ymuno â'n partneriaid asiantaeth i gynnig gwasanaeth mwy cyfannol a fydd yn annog pobl ifainc i ddatblygu sgiliau bywyd a fydd yn eu helpu nhw i fod yn annibynnol ac yn ddiogel.

Yn ystod 2015/16, daeth rhagor o blant i gysylltiad â gweithiwr cymdeithasol yn rhan o asesiad cychwynnol, o'i gymharu â 2014/15. O'r rheiny, cafodd rhagor eu gweld ar eu pennau'u hun. Bodlonodd y mesurau yma eu targedau.

2. Gwella'r prosesau o ran asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer y plant hynny y bydd arnyn nhw angen gofal parhaol tymor hir;

Rydyn ni wedi parhau i weithio tuag at gynyddu nifer y lleoliadau lleol ansawdd uchel ar gyfer y plant hynny sy methu parhau i fyw yn eu cartrefi, a hynny drwy gynyddu nifer y rhieni maeth mewnol (5 yn rhagor). Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda'n rhieni maeth i sicrhau bod gyda nhw'r sgiliau i ofalu am blant anodd eu trin a sicrhau bod y plant yn sefydlog ac â deilliannau gwell.

Hyd at 31/03/16, cafodd bron 64% o blant sy'n derbyn gofal maeth eu rhoi yng ngofal rhiant maeth mewnol. Roedd hyn y tu hwnt i'n targed o 61%.

Daeth gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol 'Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd' i rym ym mis Mehefin 2015. Ein nod oedd cynyddu nifer y lleoliadau mabwysiadu ymhlith y 4 cyngor drwy arbenigo ar drefnau recriwtio, asesu, chwilio am deuluoedd a mabwysiadu. Byddwn ni'n gwerthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth yn ystod 2016/17.

Er mwyn sicrhau amgylchedd teulu sefydlog a hir dymor i blant, cyflwynon ni 44 o Orchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig yn ystod 2015/16. Mae hyn wedi parhau â'r duedd flynyddol ers 2011/12 o gynyddu nifer y Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig.

Mae ein gwasanaethau preswyl mewnol yn cydymffurfio'n llawn â safonau rheoleiddio cenedlaethol, gan ddarparu gofal o ansawdd da i blant a phobl ifainc. Yn ystod 2015/2016, adolygon ni ein datganiad o

ddiben. Ein bwriad yw i un o'n sefydliadau preswyl fodloni'r galw am lleoliadau ar gyfer pobl ifainc rhwng 10 ac 16 oed.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i baratoi gwefan sy'n hybu cyfranogiad. Mae'r gwefan yn weithredol erbyn hyn, a chafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Ebrill 2016. Bydd yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifainc godi'u llais parthed gwaith datblygu a gwerthuso'n gwasanaethau.

Yn ystod 2015/16, cafodd pob achos diogelu plant ei ddyrannu i weithwyr sgiliau priodol. Cafodd 99.2% ohonyn nhw eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol.

Cafodd holl achosion plant sy'n derbyn gofal eu dyrannu i weithwyr sgiliau priodol. Cafodd 69.2% ohonyn nhw eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol. Roedd hyn yn is na'n targed o 80%. Cafodd pob achos a gafodd ei ddyrannu i weithiwr sgiliau yn hytrach na gweithiwr cymdeithasol eu rhoi mewn lleoliadau sefydlog hir dymor lle'r oedd y risg yn isel.

Pan fo plant a phobl ifainc yn cael eu rhoi mewn gofal, mae dyletswydd arnon ni i bennu trefniadau gofal parhaol yn amserol. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy baratoi cynllun gofal sy'n nodi pam fo'r unigolyn yn derbyn gofal, beth yw'i anghenion penodol a sut bydd yr anghenion yn cael eu bodloni. Mae'r cynllun hefyd yn pennu nodau tymor hir ar gyfer yr unigolyn, er enghraifft, dychwelyd adref i aelodau o'i deulu neu barhau i dderbyn gofal maeth drwy gydol ei blentyndod. Pan ddechreuodd plant a gafodd eu rhoi mewn gofal yn ystod 2015/16 eu lleoliad cyntaf, roedd cynlluniau gofal yn eu lle. Erbyn eu hail cyfarfod adolygu, roedd cynlluniau gofal mewn perthynas â'u gofal parhaol yn eu lle (4 mis yn ddiweddarach).

Mae'n bwysig y caiff cynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd a sicrhau y caiff deilliannau bwriadedig eu bodloni. Swyddogion Adolygu Annibynnol sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau.

Yn ystod 2015/16, cynyddon ni nifer yr adolygiadau plant mewn gofal a gafodd eu cwblhau o fewn amserlenni statudol (98.9%) a chynyddon ni hefyd nifer yr ymweliadau statudol a gafodd eu cynnal yn unol â rheoliadau (92.36%).

Ein cynlluniau ar gyfer 2016 / 27

- Rheoli gwaith gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chwblhau newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer model gweithredu gwasanaethau i blant
- Gweithio gyda phlant a phobl ifainc sy angen gofal a chymorth i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u bodloni
- Dadansoddi effaith y newidiadau i'r Gwasanaeth Ymholi ac Asesu
- Atgyfnerthu'r newidiadau i'r model gweithredu diwygiedig ar gyfer y gwasanaeth i bobl ifainc 16 oed a hŷn
- Ar y cyd â phartneriaid, gwerthuso effaith y newidiadau i MASH
- Rheoli trefnau gweithredu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer y Gwasanaethau i Blant
- Sicrhau ansawdd da ac arfer cyson ar draws ein swyddogaethau statudol
- Parhau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn unol â tharged 2016/17 o 5%
- Parhau i herio gweithdrefnau comisiynu lleoedd gofal i sicrhau y caiff plant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal eu rhoi yn y lleoliad gofal mwyaf addas a chost effeithiol yn ardal RhCT
- Gwerthuso effaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol newydd

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth er gwell?

Dyma'r mesurau y byddwn ni'n eu defnyddio i gefnogi'n blaenoriaethau a mesur cyflawniad ein gwasanaeth

- Lleihau nifer y plant a phobl ifainc sy angen gwasanaethau statudol i ymyrryd
- Lleihau nifer y plant mewn gofal o un flwyddyn i'r llall
- Lleihau nifer yr achosion o blant a phobl ifainc yn cael eu rhoi ar y gofrestr diogelu plant
- Lleihau'r amser y mae plant a phobl ifainc yn parhau mewn gofal
- Lleihau lefel yr ymyrraeth sydd ei hangen pan fo plant a phobl ifainc yn derbyn gwasanaethau statudol
- Lleihau costau cyllid plant sy'n derbyn gofal
- Cwblhau rhagor o weithgareddau allweddol o fewn amserlenni statudol, e.e. asesiadau cychwynnol

Adran 4: Beth yw eich barn?

Hoffech chi wybod rhagor am unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad yma, neu hoffech chi rannu'ch barn a'ch profiadau? Cysylltwch â ni

gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

Ffôn: **01443 424141**

E-bost: acrchallenge@rctcbc.gov.uk

Post: **Mr Giovanni Isingrini
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a
Gwasanaethau i Blant
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX**